

## Llwyth y Wapichan yn Gaiana

Mae llwyth y Wapichan yn byw yn rhan dde orllewinol Gaiana mewn ardal o 2.8 miliwn hectar - mae 1.4 miliwn hectar o'r ardal hon yn goedwig (2 filiwn hectar ydy ardal Cymru). Mae'r ardal yn amrywiaeth gyfoethog o goedwigoedd glaw, mynyddoedd a gwahanol fathau o diroedd. Mae yna 9000 o bobl yn byw mewn 21 o gymunedau sy'n gwneud bywoliaeth o ffermydd bach, hela, pysgota a chasglu bwyd, a dyma sut maen nhw wedi bod yn byw yn yr ardal ers amser maith.



### Y problemau sy'n wynebu'r gymuned:

Mae llwyth y Wapichan wedi byw yn yr ardal hon ers cannoedd o flynyddoedd. Tan yn ddiweddar, doedd dim angen dogfennau arnynt oedd yn profi bod ganddynt hawl i'r tir ond erbyn hyn, mae'n rhaid iddynt argyhoeddi'r llywodraeth mai tir Wapichan yw hwn, gan fod angen cael yr hawl arnynt i gadw pobl eraill allan.

Mae'r llywodraeth wedi caniatáu i gwmnïau sefydlu mwyngloddiau yn yr ardal heb ofyn i'r Wapichan amdano.

Mae pobl o'r tu allan yn dod i mewn i fwyngloddio aur a hefyd, i dorri coed i lawr i werthu'r pren. Mae'r dull o fwyngloddio aur yn llygru'r tir a'r dŵr gyda chemegau

gwenwynig yn ogystal â chlirio'r coed oddi ar y tir. Mae eu hardal yn enfawr, a gall pobl wneud llawer o ddifrod cyn bod unrhyw un yn gallu gwneud unrhyw beth i'w stopio. Mae'r rhan fwyaf o'r cloddwyr aur yn torri'r gyfraith.

Mae llwyth y Wapichan yn poeni y bydd y bobl iau yn colli'r wybodaeth draddodiadol o sut i fyw gyda'r goedwig.

Yn eu geiriau eu hunain –

*“Mae'r sefyllfa'n gwaethygu ac mae bygythiadau'n cynyddu. Dyma pam rydym wedi penderfynu gwyllo dros ein tiroedd a'n coedwigoedd, a pharatoi ar gyfer casglu a chyhoeddi gwybodaeth i ddweud wrth y byd beth sy'n digwydd.*

Mae Toshao Geneve Thomas, arweinydd etholedig Pentref Awarewao yn ychwanegu:

*“Rydym angen i'r wlad a'r byd wybod beth sy'n digwydd yma ar ein tir, sy'n hanfodol i'n hunaniaeth, ein bywoliaeth a'n ffordd o fyw. Dydy'r coed ddim yn gallu siarad, dydy'r adar, yr anifeiliaid a'r bywyd gwyllt ddim yn gallu dweud stop! Dydy'r pysgod ddim yn gallu gwneud dim wrth i'w cartrefi a'u tiroedd silio gael eu dinistrio. Pwy fydd yn siarad drostyn nhw? Rydym eisiau stopio'r cloddio niweidiol. Ni fyddwn yn ei ganiatáu ar ein tiroedd ni.”*

Mae llwyth y Wapichan yn gwybod bod eu “Mam Goedwig” yn oeri'r hinsawdd leol ac yn dod â glaw i'r rhanbarth.

*“Rydym yn gwneud ein bywoliaeth o'n mam goedwig. Mae hi'n rhoi'r holl bethau sydd eu hangen arnom. Mae hi fel ein stordy. Ac mae'r coed yn rhoi aer glân i ni anadlu. Mae'r gwylltiroedd yn cynnwys ardaloedd cysegredig, hen safleoedd anheddu, tiroedd seremonïol ein blaen-dadau. Mae'r lleoedd hynny'n arbennig i ni.”*

## Beth maen nhw eisiau ei wneud

Mae'r cymunedau Wapichan eisiau creu un o goedwigoedd cymunedol mwyaf y byd sydd dros 1.4 miliwn hectar, lle maen nhw'n bwriadu stopio pethau fel

mwyngloddio, a gofalu am gynefinoedd sy'n bwysig i fywyd gwyllt, anifeiliaid hela, adar a physgod. Mae'r pentrefi wedi cytuno y byddant yn dal i allu hela, pysgota, a chynaeafu deunyddiau adeiladu a meddyginiaethau gwylltiroedd yn y goedwig a warchodir, yn ôl arferion a rheolau phentrefi ar sut i ddefnyddio adnoddau heb eu dinistrio ar gyfer y dyfodol.

Mae datgoedwigo yn cael ei leihau mewn ardaloedd lle mae cymunedau lleol sydd wedi bod yn byw gyda'r goedwig ers canrifoedd yn cael hawliau i'w tir.

## **Beth mae'r prosiect yn ei wneud?**

Cefnogi'r Wapichan i gasglu tystiolaeth eu bod nhw wedi bod yn byw yno ers canrifoedd a'u bod nhw'n defnyddio'r goedwig heb ei niweidio.

Mae angen y dystiolaeth hon arnynt i gyflwyno eu hachos i lywodraeth Gaiana.

Mae cymorth fel rhan o'r prosiect yn cynnwys cyngor a hyfforddiant ar y gyfraith.

Mae'r Prosiect yn helpu i adeiladu ysgolion, i wneud lle yn y goedwig lle gall y bobl hŷn sydd â gwybodaeth a sgiliau traddodiadol drosglwyddo'r rhain i'r bobl ifanc. Maen nhw eisiau i bobl deimlo eu bod nhw'n rhan o gymuned Wapichan, gyda'i hiaith a'i ffordd o fyw ei hun. Maen nhw hefyd eisiau gwella'r parch rhwng y bobl ifanc a'r bobl hŷn.

Mae'r Prosiect yn hyfforddi aelodau'r gymuned i ddefnyddio GPS a ffonau deallus i gasglu data am eu tiriogaeth, gan gynnwys y difrod y mae mwyngloddio a thorri coed yn anghyfreithlon yn ei achosi i'w coedwigoedd

## **Pa mor llwyddiannus ydy'r Prosiect hyd yn hyn:**

Mae'r hyfforddiant GPS a ffonau deallus, a defnyddio drôn wedi golygu eu bod nhw'n gallu gwneud cofnod o'u tir a chadw llygad ar beth mae pobl o'r tu allan yn ei wneud pan fyddant yn dod i mewn. Maen nhw'n defnyddio'r holl wybodaeth maen nhw'n ei chasglu i wneud cofnodion a mapiau o'u tiroedd. Maen nhw wedi sefydlu eu gwefan eu hunain hefyd.

<http://wapichanao.communitylands.org/>



Os byddant yn gweld gyda'r drôn bod pobl wedi dod i mewn ac yn dechrau cloddio'r tir ar gyfer mwynloddio, gallant gysylltu â chyrrff y llywodraeth a fydd yn gallu dod i'w stopio.

Fe wnaethant adeiladu'r drôn eu hunain.

<https://sizeofwales.org.uk/wapichan-we-built-a-drone/>

Nawr, mae ganddynt gytundeb gyda'r llywodraeth i geisio stopio mwynloddio sy'n niweidiol iawn, ac mae llawer o fwyngloddiau wedi cael eu cau lawr.

Mae ganddynt gytundeb hefyd, bod ganddynt hawl i gael llywodraeth leol. Yn ddiweddar (2018), fe wnaethant gyfarfod â'r Arlywydd Granger, a chyflwyno dogfen iddo yn egluro gobeithion llwyth y Wapichan o ran cael gwarchod eu tiroedd hynafol.

Maen nhw wedi cynnal uwchgynhadledd ieuenctid ar gyfer pobl ifanc sy'n rhan o'r gymuned Wapichan.

<https://sizeofwales.org.uk/guyanas-youth-summit-conference/>



Partner – Forest Peoples Programme